Gwasanaethu'r gymuned | Pobl | Ymdrechu dros ragoriaeth | Amrywiaeth a chynhwysiant

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# CYNORTHWYYDD GWEINYDDOL ADODDAU DYNOL

**Pencadlys Llanelwy**
**Contract Cyfnod Penodol – 12 mis, 37 awr yr wythnos**
**Graddfa GTAGC 05 £29,064 - £31,022 y flwyddyn**

Rydyn ni'n chwilio am weinyddwr profiadol a fyddai'n hoffi gweithio mewn amgylchedd Adnoddau Dynol. Mae hon yn rôl mewn amgylchedd cyflym. Byddwch yn gweithio i gyflogwr i fod yn falch ohono ac yn gwasanaethu eich cymuned leol. Dyma gyfle gwych i chi i ymuno â'r Uned Adnoddau Dynol a Chefnogi Busnes o fewn Pencadlys ein Gwasanaeth yn Llanelwy.

Byddwch yn gyfrifol am weinyddu pob agwedd ar waith yr adran Anoddau Dynol gan gynnwys recriwtio a rheoli presenoldeb. Bydd eich dyletswyddau'n cynnwys bod yn bwynt cyswllt cyntaf i ymholiadau Anoddau Dynol, gan ddarparu cyngor a chanllawiau a sicrhau cyfrinachedd. Fel sefydliad dwyieithog, bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod â sgiliau Cymraeg Lefel 2 y gellir ei gyflawni yn eich cyfnod prawf. Bydd gofyn i chi ddelio â materion sensitif a chymhleth yn ogystal â chynnal system ffeilio electronig a phapur. Mae pob diwrnod yn wahanol!

I fod yn llwyddiannus yn y rôl hon, byddwch yn weinyddwr medrus sy'n dda am roi sylw i fanylion. Bydd yn rhaid i chi feddu ar sgiliau trefnu rhagorol i reoli eich llwyth gwaith a chadw at derfynau amser. Bydd angen i chi fod yn hyblyg ac yn barod i addasu i newid er mwyn delio â cheisiadau wrth iddyn nhw godi. Bydd angen i chi allu gweithio'n annibynnol ac o'ch pen a'ch pastwn eich hun.

Sylwch fod y swydd hon yn amodol ar wiriad Safon DBS a geirda boddhaol. Os derbynnir datgeliad cadarnhaol (wedi'i wario neu heb ei wario), bydd dull sy'n seiliedig ar risg o reoli'r wybodaeth yn cael ei fabwysiadu gan y Gwasanaeth ac yna gwneir penderfyniad rhesymol a chymesur ynghylch y gweithiwr presennol neu ddarpar gyflogai. Mae mwy o wybodaeth ar gael yma.

I wneud cais, cwblhewch a chyflwynwch eich pecyn cais drwy e-bost i: recriwtio@tangogleddcymru.llyw.cymru

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn y ffurflen gais yw 12.00 hanner dydd, 09/01/2026 a disgwylir i'r cyfweliadau ddigwydd ar 28/01/2026 & 29/01/2026**

Byddwn yn glynu wrth y dyddiad cau yn llym ac ni fydd eithriadau.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

HYRWYDDO CYNHWYSIANT helpu cael gwared ar rwystrau
PROMOTING INCLUSIVITY helping to remove barriers

ARMED FORCES COVENANT
CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG
EMPLOYER RECOGNITION SCHEME
CYNLLUN CYDNABOD CYFLOGWYR
GOLD AWARD 2022
GWOBR AUR 2022

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
Ddylai neb deimlo'n ofnus gartre
Mae help ar gael, ddydd a nos

Cefnogwyr Pride Tân
Fire Pride Allies

safecall
Llinell Gymorth Gweithwyr Cyfrinachol

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.